

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL,
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 01.09.15**

9.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Catrin Edwards.

9.2 PRESENNOL

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd Wynne, John Ceri Evans, Edward Williams, Sion Ifor Williams, Emrys Jones, Margretta Cartwright, John Ellis Williams, Sian Edwards, Eryl Jones-Williams.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Sion Ifor Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

9.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynodd y Cadeirydd longyfarchiadau y Cyngor i bawb yn yr ardal oedd wedi gwneud yn dda yn eu arholiadau yn ddiweddar.

9.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Gorffennaf 7ed a cyfarfod yr 11eg o Awst fel rhai cywir.

9.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion is-bwyllgor cynllunio a gynhaliwyd ar yr 11eg o Awst angen datgan mae maes carafanau Sarnfaen ag nid Fferm Sarnfaen oedd wedi gwneud y cais cynllunio.

9.6 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cyng. John Ellis Williams ddiddordeb yn item 9.9 (E) maes parcio Traeth Bennar ac fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

9.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Gorffennaf 1af 4-5.30 ysgol Dyffryn tir ac adeiladau, 6.45-9.00 Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy, 6ed 9-1 iechyd Canolbarth Cymru Tywyn, 2.2.30 torriadau addysg, Dolgellau, 5.30-8.30 ysgol Dyffryn cyfarfod Llywodraethwyr a cyllid, 7ed 12-4.30 hyfforddiant newidiadau iechyd gwasanaeth cymdeithasol, Caernarfon, 9ed 8.30-4 Cyngor llawn, Caernarfon, 13eg 12-5 partneriaeth mewn gofal, Caernarfon, 16eg 8-9.30 pwyllgor neuadd bentref, 24ain 10-5.30 cyfarfod rheilffordd Trallwng, Aberystwyth i'r Amwythig, 28ain 1-5 cyfarfod paratoi addysg a gofal, Penrhyndeudraeth.

Fel yr ydwyf wedi datgan eisioes bydd Mrs Anne Jones yn dychwelyd fel Prifathrawes Ysgol Dyffryn Ardudwy y tymor hwn ar ol cwblhau ei dwy flynedd fel pennaeth o'r ysgol leol ag ysgol gynradd Talsarnau. Bydd dros 64 o ddisgyblion yn yr ysgol yn mis Medi ychwanegiad o 10 ar tymor diwethaf. Fe gadeirias cyfarfod diweddar o'r Llywodraethwyr yn absenoldeb Bethan Newport a mae rheolau newydd yn dod i rym bod holl gadeiryddion Lywodraethwyr ysgol yn gorfod mynychu cyrsiau hyfforddiant pwrpasol. Mae Bwrdd Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn mynd yn ei flaen a mae rhan fwyaf o Feirionnydd wedi cael ei gynnwys, 'roedd Prif Swyddogion o Ogledd a Canolbarth Cymru yn bresennol a nod Llywodraeth Cymru yw gwneud yn siwr bod ardaloedd gwledig ddim yn cael eu gadael allan ac 'rwyf ar hyn o bryd yn gorfod cael fy argyhoeddi na ddim ond siop siarad yw y grwp. Fel rhan o raglen torriadau Gwynedd daeth Swyddogion a awgrymiadau ymlaen y gallai arbedion gael eu gwneud ar brydiau ysgol a.y.y.b a dyna y cwbl oedd ar yr agenda. Mae fy marn i yn glir ar ol bod ar baneli yn barod ynglyn a iechyd a gofal plant bod plentyn sydd yn bwyta yn dda, yn dysgu yn dda. Bydd newidiadau mawr yn gofal iechyd a cymdeithasol. Mae yn gymleth iawn a ddim ar ol ei roi mewn grym bydd y newidiadau yn cael effaith. 'Rwyf wedi gwneud dadl gref dylai gwasanaethau sydd yn cael eu darparu mewn ardaloedd trefol mawr cael eu darparu mewn ardaloedd gwledig ag ateb GIG oedd eu bod yn cael hi yn anodd i ddenu staff!! Gyd'r newidiadau hyn i gyd gefais gefnogaeth o

gyfarfod Partneriaeth mewn Gofal yn Gaernarfon dylai fy nghwaith fel Pencampwr Gofal Gwynedd gael ei dorri i dri ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd ag i'r tri cynrycholwyr CIC gymeryd rhan deublyg. 'Rwyf wedi cael addewid bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod a Swyddogion Trenau Arriva Cymru i wneud yn siwr bod y tren 8.00 y nos i'r gogledd o Bermo yn stopio ym mhob pentref yn y dyfodol. 'Rwyf yn barod wedi derbyn cwynion bod gwasanaeth y bws 38 newydd yn meddwl bydd llai o fysiau yn mynd i Ddolgellau gyda teithwyr yn gorfod newid i'r T3 yn Bermo. Mae rhai gyrrwyr bysiau yn pryderu am y posibilrwydd o ddiswyddiad. 'Rwyf hefyd wedi derbyn cwynion am y gwasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus cythreulig sydd i ardal Ardudwy ar ben wythnosau a gwyl y banc sydd yn golygu mwy o geir ar y ffordd. ** Atgoffad i bawb pan fydd yr ymgynhorïad ar dorriadau Cyngor Gwynedd yn cychwyn, bydd sylwadau pobl lleol yn gorfod cael eu clywed.

9.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Newid defnydd o siop a ty i dy annedd a newidiadau allanol yn cynnwys tynnu ymaith estyniad penty - Liverpool House, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/LB387C)

Cefnogi y cais hwn.

Cais ol-weithredol i gadw sied bren - 1 Pant Heulog, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/255B)

Cefnogi y cais hwn.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Caniatad Adeilad Rhestredig i ychwanegu dau agoriad ffenest a drws yn drychiad deheuol yr estyniad - Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/LB443B) - caniatâu

Cais ol-weithredol i gadw sied bren - 1 Pant Heulog, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/255B) - caniatâu

Adeiladu estyniad unllawr i ffrynt yr eiddo i'w ddefnyddio fel derbynfa ar gyfer y parc gwersylla - Tyddyn Goronwy, Talybont (NP5/58/210G) - caniatâu

Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu derbynfa newydd - Parc Carafanau Fferm Sarnfaen, Talybont (NP5/58/19J) - caniatâu

Adeiladu ystafell wydr i'w defnyddio fel arwynebedd llawr swyddfa gwerthu ychwanegol - Barmouth Bay Holiday Village, Ffordd Glan y Mor, Talybont (NP5/58/18V) - caniatâu

9.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Busnes

Adroddwyd bod £9,708.46 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

B Camerau CCTV

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod angen cynnal is-bwyllgor ond bod eisiau yr Heddlu yn bresennol.

C Neuadd Bentref

Cafwyd wybod bod y mater o archebu arwyddion newydd i'r safle uchod yn cael ei adael ar y bwrdd ar hyn o bryd.

D Archwilio'r llochesi bws, mynwentydd a parciau chwarae

Adroddodd y Cyng. Emrys Jones ei fod wedi gwneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn - bod y llochesi bws yn iawn ond bod angen chwystrellu chwyn laddwr yn y lloches bws ger yr hysbysfwrdd, 'roedd y ddau barc chwarae yn daclus ac yn cael gofal da ond 'roedd angen peintio y seddi yn y parc chwarae newydd a cytunwyd bod y pwyllgor seddi yn delio gyda hwn, 'roedd y fynwent gyhoeddus yn iawn ond 'roedd y gatieu angen sylw a cytunwyd bod y pwyllgor seddi yn delio gyda hwn. 'Roedd mynwent Llanddwywe a mynwent Llanenddwyn yn iawn, 'roedd gardd Penybont yn iawn ond bod angen seddi newydd yna a cytunwyd bod y pwyllgor seddi yn delio gyda hwn, ac 'roedd Parc Morlo yn iawn ond bod y llwybr angen ei chwynu. Cytunodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas wneud yr archwiliad y mis nesa.

E Maes Parcio Traeth Bennar

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn y manylion ynglyn ar gost o redeg y safle uchod gan Mr. Edward Jones o'r Parc Cenedlaethol a cytunwyd ei bod yn anfon copi i bob Aelod o'r Cyngor. Penderfynwyd bod angen trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater hwn a gofyn i Mr. Edward Jones ei fynychu a cytunwyd bod y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd yn gyfrifol am drefnu y cyfarfod hwn.

9.10 GOHEBIAETH

A Mr. Dewi Evans

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor ei fod yn rhoi gorau i gasglu ysbwriel yn y ddau barc chwarae ar y 15ed o Awst am ei fod yn teimlo mae gwastraff arian yw talu iddo am wneud y gwaith yma ar cyhoedd yn cadw y ddau barc chwarae yn daclus.

B Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynghyd a chopi o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod er gwybodaeth i'r Cyngor.

D Mrs Ceri Davies

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gofyn a fyddai y Cyngor yn gallu rhoi gwybodaeth iddi ynglyn a pham bod enw brawd ei Nain sef Evan Griffith a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Fawr yn Ffrainc ar y Gofeb yn y pentref ar teulu yn byw yn ardal Botwnnog. Cytunwyd anfon copi o'r llythyr at Mr. Trefor Roberts o'r Lleng Brydeinig ag hefyd cytunodd y Cyng. Margretta Cartwright wneud ymholiadau gyda Mrs Olwen Lewis ynglyn ar mater.

E Cymorth Cynllunio Cymru

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gwahodd dau Aelod o'r Cyngor i gyfarfod sydd wedi ei drefnu ganddynt yn Plas Tan y Bwlch ar yr 21ain o Fedi am 6.00 o'r gloch. Cytunwyd bod y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd yn mynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor.

F Cyngor Gwynedd - Adran Cyfreithiol

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gwahodd Aelodau i sesiynau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau. Cytunwyd bod y Cadeirydd, Is-Gadeirydd, y Cyng. Emrys Jones, Sion Ifor Williams ac Edward Williams yn mynychu yr hyfforddiant hwn.

9.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £20,937.80 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.01 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,534.69 yn y cyfrif wrth gefn a £8.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mr. Dewi Evans	-	£90.00	- edrych ar ol y ddau barc chwarae (Gorffennaf/Awst)
Mrs Annwen Hughes	-	£294.00 (cyflog) + £281.04 costau = £575.04	(Gorffennaf/Awst)
Mr. M. J. Kerr	-	£370.00	- agor bedd y diweddar Mrs Bernice Ruby Gibbs
Mr. Gary Martayn	-	£2,347.00	- torri gwair

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Pritchard a Griffiths	-	£560.00	- claddu y diweddar Mrs Bernice Ruby Gibbs
Glyn Rees a'i Fab	-	£1,233.00	- claddu y diweddar Mr. John Llywelyn Davies
Cyllid a Thollad	-	£134.24	- ad-daliad T.A.W
Cyngor Gwynedd	-	£10,000.00	- hanner y precept

9.12 UNRHYW FATER ARALL

Cytunwyd anfon llythyr ar Mr. Richard Morgan, Cadeirydd Cylch Harlech, Sioe Sir Meirion yn llongyfarch y pwyllgor ar lwyddiant y sioe yn Harlech eleni ag hefyd anfon lythyr at Mr. Douglas Powell yr ysgrifennydd cyffrediniol.

Cafwyd wybod bod Llanast yn yr encilfan ger Pentre Uchaf a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn ar mater.

Cafwyd wybod bod y stepiau sydd yn dod i lawr o faes parcio Penrhiw wedi cael eu trwsio.

Eisiau tynnu sylw yr Adran Priffyrdd bod eiddew yn gor-dyfu ger Ferndale ag hefyd bod y gor-dyfiant ger ystad Penrhiw byth wedi cael ei dorri.

Datganwyd bod cwyn wedi cael ei dderbyn bod y polion ger garej Berwyn yn ymyrud ar y palmant ond cafwyd wybod eu bod wedi eu gosod o fewn ffiniau y garej.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....